*This document is available in English* **Rhif eitem ar yr agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **23 Hydref 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx** |
| Pwnc | **Yr Opsiynau o ran Cyllideb 2018-19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynt datblygu cyllideb refeniw ddrafft yr Awdurdod ar gyfer 2018-19.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Wrth lunio cyllideb refeniw ddrafft yr Awdurdod ar gyfer 2018-19 mae nifer o ffactorau anhysbys yn golygu ei bod yn anodd cyfrifo'r gofyniad o ran y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r materion ansicr hynny ac yn awgrymu ffordd o ariannu'r lefel bresennol o wasanaethau yn y tymor byr.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr Aelodau'n:

(i) nodi'r rhagdybiaethau y seiliwyd y gyllideb refeniw ddrafft arnynt ar gyfer 2018-19;

(ii) cadarnhau eu bod yn dymuno argymell i'r Awdurdod bod cyllideb 2018-19 yn cael ei llunio ar sail y lefel bresennol o wasanaethau;

(iii) argymell i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2017 eu bod, yn unol â'r strategaeth ariannol dair blynedd, yn cymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb am un flwyddyn arall a/neu'n cymeradwyo cynyddu cyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol yn 2018-19.

**CEFNDIR**

4 Er mwyn cyfrannu at y mesurau cyni yn y sector cyhoeddus cyfan, penderfynodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru rewi ei gyllideb o 2011-12 tan 2014-15. Yn 2015-16, bu cynnydd bach iawn o ryw £113k, ac yn 2016-17 defnyddiodd yr Awdurdod gronfeydd wrth gefn i rewi'r gyllideb eto. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddod o hyd i £3 miliwn o arbedion (10% o'i gyllideb) a gwelodd ei weithlu, gan gynnwys rheolwyr, diffoddwyr tân, staff diogelwch tân a staff cefnogol, yn gostwng 9%. Yn ôl ystadegau 2015-16 a gyhoeddwyd ar StatsCymru, bu gostyngiad mwy sydyn yn nifer y staff yn GTA Gogledd Cymru nag yn GTA y Canolbarth a'r Gorllewin a GTA y De.

5 Roedd yr aelodau'n sylweddoli ei bod yn dod yn anghynaladwy parhau i geisio rhewi cyllideb yr Awdurdod, felly yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Mawrth 2017, cytunodd yr Aelodau i gefnogi amcanion gwella drafft yr Awdurdod ar gyfer 2017-18. Mae'r ail o'r amcanion yma yn awgrymu strategaeth ariannol y gallai'r Awdurdod seilio ei gynllun ariannol tymor canolig nesaf arni.
Dyma a gynigiwyd:

> "Diogelu cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod drwy fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu cyfraniadau ariannol a gostwng gwasanaethau."

6 Yn 2017-18, sef blwyddyn gyntaf y strategaeth, roedd yr Awdurdod Tân ac Achub blaenorol wedi cytuno i gael £1.28 miliwn o gynnydd yng nghyfraniadau ariannol gan yr Awdurdodau cyfansoddol. Dyma'r cynnydd sylweddol cyntaf ers 2010. Fodd bynnag, roedd hyn yn llai na'r hyn roedd ei angen i ateb cynnydd mewn costau cyflogau, prisiau ac ariannu cyfalaf. Felly, penderfynwyd tanategu cyllideb 2017-18 gyda £414,000 yn ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn ac i edrych eto ar y gofyniad am 1.2% yn ychwanegol yn 2018-19.

**GWYBODAETH**

7 Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru, ar 10 Hydref, yn cyhoeddi ei setliad refeniw a chyfalaf amodol i lywodraeth leol ar gyfer blwyddyn 2018-19, a hynny'n dilyn cyflwyno cyllideb ddrafft ar 3 Hydref 2017. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, ni wyddom beth fydd y setliad drafft amodol hwnnw. Cafwyd rhai arwyddion mewn datganiadau gweinidogol ddechrau mis Hydref ynglŷn â'r modd y bydd y Llywodraeth Cymru yn ymdrin â chyllid i'r sector cyhoeddus ond mae'r sefyllfa lawn yn dal braidd yn aneglur. Bydd y trysorydd yn darparu diweddariad ar lafar yng nghyfarfod y Panel Gweithredol.

**RISGIAU A CHYFLEOEDD**

8 Fel bob amser wrth osod y gyllideb, mae'r prif risgiau i'r Awdurdod yn ymwneud â'r siawns o ddyfarniad cyflog uwch na'r disgwyl, lefelau uwch o weithgaredd, gostwng neu ddileu grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, a chanlyniad y setliad amodol i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru.

9 Mae'r rhain i gyd yn anhysbys ar hyn o bryd. Yr hyn sy'n gwneud y cyfrifiad yn fwy anodd byth yw'r trafodaethau sy'n mynd ymlaen rhwng y Cyd-gyngor (NJC) ac Undeb yr FBU ynglŷn â chyflogau. Ni chafwyd cytundeb eto am ddyfarniad cyflog 2017-18. Roedd y cynnig gwreiddiol o 2% yn uwch o 1% na'r swm yng nghyllideb 2017-18 (sef tua £100,000). Fodd bynnag, gwrthodwyd hyn wedyn felly bu'n rhaid i ni ragdybio cynnydd o 1% ar gyfer 2017-18 ac 1% pellach ar gyfer 2018-19. Mae'r rhagdybiaeth hon yn golygu risg y gallai'r setliad yn y ddwy flynedd fod yn llawer uwch nag 1%.

10 Yn ôl yr amcangyfrif presennol, mae'r gwahaniaeth rhwng cost cyllideb sy'n parhau a'r gyllideb gyfredol yn gynnydd o £1.3 miliwn, sy'n cynnwys y £414,000 o danategiad y mae'n rhaid dod o hyd iddo.

11 Mae cyfle i gyfrannu rhyw £526,000 tuag at y pwysau costau oherwydd y newidiadau'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, sef testun papur arall i'r cyfarfod hwn. Gallai hyn arbed £360,000 y flwyddyn. Hefyd, mae'r contract yswiriannau wedi cael ei ail-negodi eleni ac mae wedi arwain at arbedion o ryw £120,000, ac mae talu diffyg y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ymlaen llaw wedi arbed £46,000 y flwyddyn am y tair blynedd nesaf. Mae'r posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn eto i danategu cyllideb 2018-19 wedi'i gyfyngu oherwydd mai £2.15 miliwn yw lefel y cronfeydd cyffredinol ar hyn o bryd. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am y risg sy'n gysylltiedig â'r strategaeth hon, oherwydd byddai'n rhaid i'r Awdurdod wneud yr arbedion hynny y flwyddyn ganlynol cyn unrhyw arbedion ychwanegol sy'n angenrheidiol i gwrdd â chwyddiant cyflogau a phrisiau.

12 Doeth yw atgoffa'r Aelodau y bydd heriau ariannol mwy o faint yn wynebu'r Awdurdod yn 2019-2020 o ganlyniad i ailbrisio pensiynau a'r trefniadau pontio i'r system gysylltiadau genedlaethol newydd. Gan fod swm y pwysau costau hyn yn anhysbys ar hyn o bryd, bydd raid ymdrin â nhw yn ystod y broses o osod cyllideb 2019-2020.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant tymor hir, sef:<br>Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os ydynt yn digwydd;<br>Hwyluso gwasanaethau tân ac achub integredig sy'n well, yn ymatebol ac o ansawdd uchel er mwyn i weithgareddau ataliol ac ymateb mewn argyfwng allu parhau i fod ar gael pan a lle bo angen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Yn ôl yr amcangyfrif presennol, bydd y gwahaniaeth rhwng y gyllideb bresennol a'r gofyniad ar gyfer 2018-19 yn £1.3 miliwn. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb refeniw fantoledig. |
| Staffio | Dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim. |
| Risgiau | Bod y dyfarniad cyflog i ddiffoddwyr tân yn cael ei gytuno ar 1% neu uwch ar gyfer 2017-18 a 2018-19.<br>Risg o gynnydd yn y lefelau gweithgarwch a dileu neu leihau grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. |